Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw **Phil Jarrold** Cwmni/Sefydliad **Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

Ymateb i Ymgynghoriad Awdurdod S4C ar Wasanaethau Plant yn y Dyfodol Digidol

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r elfen o'r ymgynghoriad uchod sy'n ymwneud â gwasanaeth Darlledu'r Cynulliad.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynrychioli, ymgyrchu ar ran, ac yn cefnogi a datblygu sefydliadau gwirfoddol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli yng Nghymru. Mae'n cynrychioli'r sector ar lefel Ewropeaidd, Prydeinig a Chenedlaethol. Ynghyd ag amrywiaeth o asiantaethau arbenigol a gwirfoddol ac asiantaethau datblygu eraill, mae'n darparu strwythur gefnogaeth i'r trydydd sector yng Nghymru. Mae ganddo dros 2,000 o aelodau, ac mewn cysylltiad cyson gyda llawer iawn mwy o sefydliadau drwy amrywiaeth o rwydweithiau lleol a chenedlaethol.

Mae CGGC yn llawn gefnogi'r ymateb a roddwyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru i'r ymgynghoriad hwn. Rydyn ni'n rhannu'r farn bod darlledu gweithrediadau'r Cynulliad yn hanfodol er mwyn cynnwys pobl mewn gwleidyddiaeth a'r drafodaeth ehangach ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau ac unigolion ar hyd a lled Cymru. Byddai colli'r gwasanaeth hwn yn rhwystro aelodau'r gymdeithas sifil rhag cyfrannu at, a dilyn, gwaith y Cynulliad.

Fel mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn ei awgrymu, mae gan CGGC, fel rhanddalwyr allweddol, gyfraniad pwysig at y drafodaeth hon a byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn yn bellach gyda chi.